

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB,PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 32
EBRILL 2011

Wn  i ddim a gawsoch chi gyfle eto i ymweld â'r arddangosfa  'Pregethwyr a Phulpudau'  yn Amgueddfa Ceredigion.  Mae'n werth ei gweld ac mae'n para tan y 14eg o Fai. Felly mae yna hen ddigon o gyfle i fynd fwy nag unwaith a mwynhau'r arlwy yno!

Mae'r arddangosfa yn llawn o bethau a dderbyniodd yr amgueddfa gan gapeli lleol ar hyd y blynyddoedd. Yno cewch weld hen bulpudau Horeb, Penrhyn-coch a Chapel y Garn a roddwyd i'r amgueddfa wedi i'r aelodau benderfynu cyflawni newidiadau mewnol i'r adeiladau.  Daeth sawl peth hefyd o gapeli sydd wedi cau megis, blychau casglu, llestri cymun, Beiblau, harmonia a hyd yn oed elorau. Fy hoff bethau i yn yr arddangosfa yw dwy gadair fawr a ddefnyddiwyd gan weinidogion slawer dydd i fynd i bregethu allan yn yr awyr agored. Byddai'r pregethwr yn sefyll ar y gadair ac yn gosod lectern fechan ar ei chefn  i ddal Beibl ac unrhyw nodiadau a oedd ganddo.

Ond un o'r eitemau mwyaf trawiadol yw'r faner enfawr a ddaeth o gapel Rehoboth, Taliesin.  Gwnaed y faner gan gwmni E. Riley o Leeds allan o wlân main ac mae wedi'i baentio ar y ddwy ochr.  Ar y naill ochr ceir llun o famau a'u plant yng nghwmni'r Iesu gyda'r geiriau, 'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi' ac ar yr ochr arall ceir delwedd o ddyn yn gwrthod diod gyda'r geiriau o Lyfr y Diarhebion, 'Gwatwarus yw gwin'. Yn ôl yr hyn a nodir yn yr arddangosfa mae'n debyg y byddai'r faner yn cael ei chludo o Dre'r Ddôl i Daliesin ar ddydd Gwener y Groglith yn ystod y 1930au a'r 1940au, ond i'r arfer ddod i ben yn fuan wedyn am fod y traffig wedi cynyddu ac am nad oedd digon o ddynion ar gael i'w chludo wedi'r rhyfel.

Hyfrydwch yw cael gweld yr holl bethau hyn a fu mor bwysig yng ngolwg ein cyn-deidiau. Mae'n dda eu bod yn cael eu diogelu ac yn cael eu harddangos, ond eto i gyd mae yna rywfaint o dristwch am nad ydynt wrth gwrs yn cael eu defnyddio yn unol â'u  pwrpas gwreiddiol.

Yn ddiweddarach y mis hwn ar ddydd Gwener y Groglith, cynhelir gorymdaith trwy stryd fawr Aberystwyth i dystiolaethu, i'w thrigolion a'i hymwelwyr, i'r hyn a wnaeth Iesu trosom ar groesbren Calfari.  Fe fydd hi'n orymdaith gyd-enwadol gyda chynrychiolwyr o holl eglwysi'r dref yn ymgynnull wrth y cloc am 11.15yb wedi'r oedfa yng Nghapel y Morfa.  Hyd y cofiaf i ni fydd neb yn cludo baner ond fe fydd yna groes yn cael ei chludo fel arwydd gweledol o'n tystiolaeth.

A ddewch chi hefyd? Mae angen eich presenoldeb, nid yn unig i sicrhau na fydd croesbren  yr orymdaith hon yn gorfod chwilio am gartre newydd yn un o'n hamgueddfeydd (fel a ddigwyddodd yn hanes baner Rehoboth), ond i dystiolaethu i'r ffaith fod gennym Waredwr sydd yn fyw heddiw ac a gyflawnodd bethau mawr trosom ar Galfari fryn cyn atgyfodi o'r bedd ar fore'r Trydydd Dydd.

Pob bendith yn ystod yr Wythnos Fawr a'r Pasg
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939       E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS EBRILL 2011**

| **Cyhoeddwr y Mis: Robert Dobson** | **Organydd y Mis : Ceris Gruffudd** | |
|---|---|---|
| 3 Ebrill 2.30 | Oedfa Gymun<br>Gweinidog | Bwrdd y Cymun:<br>Mervyn & Sue Hughes |
| 10 Ebrill 10.30 | Oedfa Deuluol<br>Gweinidog | |
| 17 Ebrill 2.30<br>Sul y Blodau | Oedfa Bregethu<br>Delyth Morgans | Gofal y Te: |
| 19 Ebrill 7.00 | Oedfa'r Wythnos Fawr<br>Gweinidog | |
| 24 Ebrill 10.30 Sul y Pasg | Oedfa i Ddathlu Sul y Pasg ar gyfer pob Oed Gweinidog | |
| 1 Mai 2.30<br>Sul y Pasg Bach | Oedfa Gymun<br>Gweinidog | Bwrdd y Cymun: |

**I'CH DYDDIADUR**

4 Ebrill: Cinio Cymorth Cristnogol Bara Caws ym Methel: 12.00-1.30yp
6 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa Ganu am 7yh yng Nghapel y Morfa
7 Ebrill: Astudiaethau'r Grawys am 7yh yn y Morlan.
13 Ebrill: Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys: Horeb yn gyfrifol am weini
13 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa Ganu am 7yh yn Horeb
13 Ebrill: Cyfarfod Menter Gyd-Enwadol: Morlan am 7.30yh
14 Ebrill : Astudiaethau'r Grawys am 7yh
15 Ebrill: Cyngerdd i godi arian i Gronfa Tirion Lewis yn Neuadd Penrhyn-coch am 7yh
20 Ebrill: Cymdeithas Bethel am 2yp
20 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa yng Nghapel y Garn am 7yh
26 Ebrill: Cwrdd Gweddi Misol yn Festri Horeb 7.30 (Marc Pennod 5)
27 Ebrill: Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys
4 Mai: Rihyrsal y Gymanfa yn Seion, Stryd y Popty am 7yh
7 Mai: Taith Gerdded y Crynwyr yn Nolgellau
8 Mai: Cymanfa Ganu yn Seion, Aberystwyth am 10.00 a 5.30
17-18 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Felinfoel, Llanelli.
23 Mai: Recordio 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yng Nghapel y Garn.
3-4 Mehefin: Taith Gerdded Mari Jones
12 Mehefin: Gwibdaith Sul y Pentecost i Soar y Mynydd.

**LLOFFION**

**Diolch** i Howard Evans am ei waith yn codi'r gatiau ar ochr y festri sy'n golygu ei bod yn llawer mwy hwylus i'w hagor a'u cau. Diolch yn fawr am y gymwynas.

**Cofiwch** am y cyngerdd i godi arian i Gronfa Tirion Lewis a gynhelir ar nos Wener 15fed Ebrill. Mae gan bob un o'r diaconiaid docynnau i'w gwerthu ar gyfer y cyngerdd. Maent hefyd ar gael yn y Swyddfa Bost a'r Garej.

**Arddangosfeydd o Ddiddoreb Arbennig**: Cynhelir dwy arddangosfa yn Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth a fydd yn sicr o ddiddordeb inni:

26 Mawrth-14 Mai : Pregethwyr a Phulpudau yn yr Awditoriwm
26 Mawrth- 18 Mehefin Capeli – arddangosfa ôl- syllol o waith Gwrando.

**Teithiau Cerdded y Crynwyr (7 Mai) a Mari Jones (3-4 Mehefin):** Os oes gennych diddordeb i ymuno â'r teithiau hyn, dewch i gysylltiad â'r Gweinidog. Croeso cynnes i bawb.